



## Gwerthusiad Doethineb Gwledig Astudiaeth Achos 2: Gwella trafnidiaeth leol drwy Doethineb Gwledig - Ardal Upper Tay Ionawr 2020



Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Helpodd y problemau hyn i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu un enghraifft o beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yn Ucheldir Swydd Perth, yr Alban.

### *"Mae trafndiaeth wedi bod yn broblem erioed... ac mae pobl wedi ymdrechu'n galed"* (Preswlydd lleol)

Cyn dyfodiad Doethineb Gwledig, roedd gwirfoddolwyr yn rhedeg Cynllun Car i'r Ysbyty a Chynllun Rhannu Liff. Sefydlwyd Gwasanaeth Deialu Bws/Tacsi fel rhan o'r gwasanaethau Trafnidiaeth sy'n Ymateb i Alw gan yr Uned Trafnidiaeth Gyhoeddus yng Nghyngor Perth a Kinross, sydd hefyd yn darparu gwasanaeth bws trefol a gwledig o amgylch Aberfeldy a Dyffryn Upper Tay. Fodd bynnag, roedd llawer o bobl, yn benodol pobl hŷn, yn dal i deimlo nad oedd hi'n hawdd iddynt gael gafael ar wasanaethau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden o ganlyniad i ddiffyg trafndiaeth.

Mae trafferthion gyda chyfathrebu ar-lein yn dwysáu'r ymdeimlad o fod yn 'bell o bob man', gan fod y **"Band llydan yn dda i ddim byd yma!"**

Felly, nodwyd trafndiaeth fel blaenoriaeth - gyda bylchau yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, a daeth yr Upper Tay Transport Group ynghyd i wneud union hynny! Mae'r grŵp yn cynnwys pobl leol, llawer ohonynt a oedd eisoes yn ymwneud â thrafnidiaeth a materion eraill, ac mae'n cynnwys Cadeiryddion y pedwar cyngor

cymuned yn yr ardal.

Cafodd ei sefydlu ar ôl i'r Gweithiwr Datblygu Doethineb Gwledig drefnu digwyddiad **'Let's Talk Transport'** yn Aberfeldy ym mis Hydref 2018 (pamffled ar dudalen 2). Rhoddodd hyn gyfle i bobl siarad ag Uned Trafnidiaeth Gyhoeddus y cyngor ac archwilio sut y gall y gymuned leol helpu i ddiwallu anghenion trafndiaeth yr ardal.

Ers hynny mae'r Grŵp Trafnidiaeth wedi mynd o nerth i nerth. Yn ddiweddar, cynhaliwyd digwyddiad dilynol, yn dwyn yr enw **'Shout About Transport'** i lansio'r Cynllun Trafnidiaeth Leol a Chyfnwid Gwybodaeth, fel bod aelodau'r gymuned yn gallu rhannu syniadau ar wella trafndiaeth o Ynys Mull i Sir Benfro!



# Deunyddiau hyrwyddo digwyddiadau

A Rural Wisdom Newsletter, 2018

## LET'S TALK TRANSPORT

For more information on the **Rural Wisdom** project, visit: [www.ruralwisdom.org](http://www.ruralwisdom.org)  
 If you would like to discuss any issues in this newsletter, contact Jill on 07591 203720 or [jill.d@otbds.org](mailto:jill.d@otbds.org)

### What's Available in Highland Perthshire

**Service bus**  
 There is a town service bus and rural bus service, provided through the Public Transport Unit at Perth and Kinross Council. Printed timetables are available at Breadalbane Community Library, on buses and the Locust Centre in Aberfeldy. *For online timetables, journey planners & useful links, go to: [www.pkc.gov.uk/bustimetable](http://www.pkc.gov.uk/bustimetable)*

**The Demand Responsive Transport (DRT) Dial-a-Bus/Taxi Service in Kinloch Rannoch**  
 connects with trains at Rannoch Station to Fort William and into Kinloch Rannoch to connect to Pitlochry. The Pitlochry bus service, provided through the Public Transport Unit, will operate on the fuller 'summer' timetable all year this year. The DRT operates from 7am–10pm from Mon–Sat and should be booked at least 24hrs before travel. Prices are as per the bus, so if you have a free bus pass, travel is free. The taxi may ask you to adjust your time to accommodate others travelling on the same journey. *More details are available at: [bit.ly/PKC-DRT](http://bit.ly/PKC-DRT)*

**Perth and Kinross Council minibuses** are based at some community campuses & available to community groups, who pay for the fuel only. *There are a number of conditions, more details online: [bit.ly/PKC-minibus](http://bit.ly/PKC-minibus)*



### LET'S TALK TRANSPORT EVENT!

**TUESDAY 30TH OCTOBER 2-6PM**  
**BREADALBANE COMMUNITY LIBRARY**  
**Crieff Road, Aberfeldy, PH15 2DU**  
 Come along and talk to the Public Transport Unit about your transport needs, how your community can help and how other rural communities tackle this age-old problem.  
**FREE BUS TRANSPORT** to the event.  
 Contact Jill on 07591 203720 or email [jill.d@otbds.org](mailto:jill.d@otbds.org)




#### Places to visit on the No. 91 route



	MTWTFSS	MTWTFSS	MTWTFSS	MTWTFSS
Aberfeldy Chapel Street	0615	0615	0615	0615
Perth Station Road	0630	0630	0630	0630
Burray Green	0645	0645	0645	0645
Rannoch Pier Road	0700	0700	0700	0700
Perth	0715	0715	0715	0715
Perthgall Inn shelter	0730	0730	0730	0730
Perthgall	0745	0745	0745	0745
Perthgall	0755	0755	0755	0755
Perthgall	0805	0805	0805	0805
Perthgall	0815	0815	0815	0815
Perthgall	0825	0825	0825	0825
Perthgall	0835	0835	0835	0835
Perthgall	0845	0845	0845	0845
Perthgall	0855	0855	0855	0855
Perthgall	0905	0905	0905	0905
Perthgall	0915	0915	0915	0915
Perthgall	0925	0925	0925	0925
Perthgall	0935	0935	0935	0935
Perthgall	0945	0945	0945	0945
Perthgall	0955	0955	0955	0955
Perthgall	1005	1005	1005	1005
Perthgall	1015	1015	1015	1015
Perthgall	1025	1025	1025	1025
Perthgall	1035	1035	1035	1035
Perthgall	1045	1045	1045	1045
Perthgall	1055	1055	1055	1055

**Having Fun on the Number 91!**

Codes:  
 MTWTFSS - Monday to Friday only  
 SSSSS - Saturday only  
 SSSSS - Sunday only

Pamffled ar gyfer Llwybr Bws 91

# Mae pobl hŷn yn arwain newid mewn trafndiaeth leol

Mae gweithgareddau eraill wedi cynnwys; cynyddu cyfleoedd hyfforddiant i yrwyr bysiau mini gwirfoddol; cynhyrchu ffilm, amserlen a phamffled (ar gael ar-lein a chopi caled gweler tudalen 3) a elwir yn **'Having Fun on the 91'** i ysbrydoli pobl i ddefnyddio bws 91 drwy ddangos beth y gellir ei wneud yn y lleoedd ar hyd y llwybr; a chynnal arolwg i lywio Cynllun Gweithredu Trafndiaeth.

Dywed y grŵp mai eu llwyddiant mwyaf yw sicrhau £15,000 ar gyfer cyflogi Gweithiwr Datblygu am 14 awr yr wythnos am ddwy flynedd gan Gronfa Trafndiaeth Gymunedol y cyngor. Golyga hyn y byddant yn cael cymorth ar ôl i'r Gweithiwr Datblygu Doethineb Gwledig symud ymlaen ar ddiwedd y cam hwn o'r prosiect Doethineb Gwledig.

Felly sut mae Doethineb Gwledig wedi helpu i sefydlu'r Grŵp Trafndiaeth ac yna eu helpu i sicrhau cyllid fel bod pobl hŷn bellach yn arwain newid mewn trafndiaeth leol?

Siaradom â'r grŵp i ddarganfod sut. Dechreuwa un o'r aelodau siarad yn syth: **"Mae Jill (y Gweithiwr Datblygu) wedi bod yn llawn egni...mae pobl leol yn abl iawn ond roeddem angen rhywun gyda'r amser a'r gallu ymroddedig i ddarparu cefnogaeth gyson."**

Cytuna ac eglura un arall: **"Mae gwirfoddolwyr ynghlwm â gormod o bethau - mae'n rhaid i ni gael adnoddau"** gan ychwanegu **"Plannodd Jill rai hadau - roedd y syniadau cychwynnol yna"**.

Ychwanega trydydd aelod:

**"Nawr bod pawb yn cyfrannu, nid oes dull gweithredu o'r brig i lawr. Ac mae'n cael ei arwain gan y gymuned, nid gan y cyngor"**.

Cyn i bedwerydd aelod egluro: **"Yn y gorffennol, roedd y cyngor yn casglu llawer o wybodaeth ond ddim yn gwneud unrhyw beth yn ei gylch"**.

Mae'r grŵp yn teimlo eu bod, gyda chymorth Doethineb Gwledig, wedi cyflawni llawer.

**"Yn wreiddiol, nid oedd trafndiaeth ar hyd y [Tay] Lochside - bellach mae'n gwella"**.

Mae pobl leol yn teimlo bod gan y gymuned berthynas gryfach o lawer â Chyngor Perth a Kinross a Grŵp Gweithredu'r Ucheldir (tra mae Cadeiryddion y pedwar cyngor cymuned ar y Grŵp Trafndiaeth yn eistedd gydag asiantaethau statudol a chynghorau cymuned eraill yn Ucheldir Swydd Perth). Maent hefyd yn credu bod yr ymateb i'r arolwg trafndiaeth yn golygu eu bod wedi lleihau ychydig o sinigiaeth gan bobl ynglŷn â'r posibilrwydd o ddylanwadu ar y cyngor neu'r gymuned yn gallu gwireddu newid.

Mae'r grŵp yn ddiolchgar iawn i Jill, sydd **"wedi gwneud llawer o dda yn yr amser yr wyt wedi'i gael - diolch yn fawr iawn"**.

Bydd yn dilyn datblygiadau mewn lleoedd eraill o ran trafndiaeth gymunedol mewn ardaloedd gwledig drwy'r prosiect Doethineb Gwledig dros y blynyddoedd nesaf:

**"Mewn dwy flynedd, hoffem i bawb allu symud o amgylch y gymuned heb orfod bod yn ddibynnol ar gar!"**

## Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ac adnoddau yn: [www.ruralwisdom.org](http://www.ruralwisdom.org)

### Astudiaethau achos eraill o Doethineb Gwledig:

1. 'What's On' (Aberdaugleddau)
2. Grŵp Trafnidiaeth (Ucheldir Swydd Perth)
3. Gwaith Rhyng-genedlaethol (Eaglesham)
4. Caffi Cymunedol (Coed-llai)
5. Grŵp Canu (Brechin)

Darllen mwy yma:

[www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation](http://www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation)

## Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford  
Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn) E-  
bost: [Carol.Clifford@ndti.org.uk](mailto:Carol.Clifford@ndti.org.uk)  
Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant  
(NDTi)  
Llawr Cyntaf  
30-32 Westgate Buildings  
Caerfaddon BA1 1EF

[www.ndti.org.uk](http://www.ndti.org.uk)